# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Hydref 2020

Amser: 09.30 - 11.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6470

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru<br>Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru<br>James Gerard, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24A, datganodd David Melding fuddiant mewn perthynas ag eitem 2.

## 2 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 2

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog (tan 9.55am) a'r Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â'i ymchwiliad ynghylch Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)623 - Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.2 SL(5)628 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(5)625 - Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)626 – Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(5)627 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.6 SL(5)629 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)619 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i ofyn am eglurhad pellach mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer adolygu cyfyngiadau lleol.

### 4.2 SL(5)621 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 C(5)042 - Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020

Trafododd y Pwyllgor y Gorchymyn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(5)167 - Rheoliadau yr Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 6.2 WS-30C(5)168 - Rheoliadau Maeth (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gwaith dilynol i sesiwn graffu'r Pwyllgor ar 21 Medi 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 7.2 Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bil Marchnad Fewnol y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 9 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog.

## 10 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i’w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cam-drin Domestig: Trafod gohebiaeth

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cam-drin Domestig a chytunodd i ysgrifennu i ofyn am eglurhad pellach cyn drafftio ei adroddiad.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestri) (Rhif 2): Trafod y materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2). Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 13 Rheoliadau Covid-19: Trafod gohebiaeth

Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd mewn perthynas â chraffu ar reoliadau Covid-19 a chytunodd i drafod ei ymateb yn y cyfarfod nesaf.